

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mehefin 2018. Gellir ei weld yma: <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/animalwelfare-service-animals.html>.

Amcan(ion) y Polisi

3. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw cynyddu'r amddiffyniad i anifeiliaid gwasanaethu trwy ddiwygio adran 4 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006"). Mae'n mynd i'r afael â phryderon y cyhoedd ynghylch cymhwyso adran 4(3)(C)(ii) o Ddeddf 2006 i ymosodiadau ar anifeiliaid gwasanaethu lle gallai diffynnydd a gyhuddir o achosi dioddefaint diangen i anifail haeru ei fod yn amddiffyn ei hun a bod cyfiawnhad defnyddio grym corfforol yn erbyn anifail gwasanaethu gan achosi dioddefaint sydd ei angen iddo i bob pwrpas.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Syr Oliver Heald QC AS.
5. Mae'r Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf 2006 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i lys ddiystyru'r ystyriaeth yn adran 4(3)(c)(ii) o Ddeddf 2006 o dan amgylchiadau penodol wrth asesu a oedd dioddefaint yn ddiangen yng nghyd-destun achosi dioddefaint i anifail gwasanaethu.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Cymal 1: Niweidio Anifail Gwasanaethu
Mae'r cymal yn darparu ar gyfer diystyru'r ystyriaeth os oedd yr anifail o dan reolaeth swyddog perthnasol adeg yr ymddygiad a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan y swyddog bryd hynny wrth i'r swyddog gyflawni'i ddyletswydd, mewn ffordd a oedd yn rhesymol ym mhob amgylchiad ac nad y swyddog yw'r diffynnydd a gyhuddir o achosi'r dioddefaint diangen.
7. Mae'r cymal yn diffinio swyddog perthnasol fel cwnstabl; person (nad yw'n gwnstabl) sydd â phwerau cwnstabl neu sydd fel arfer wedi'i gyflogi at ddibenion plismona neu ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddarparu

gwasanaethau at ddiben plismona; neu swyddog carchar yn unol ag ystyr Rhan 4 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991. Mae swyddog carchar yn enghraifft o berson sydd â phwerau cwnstabl ac felly daw o dan adran newydd 3B(b).

8. Mae'r cymal yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol newid y diffiniad o "swyddog perthnasol" ac mai dim ond person yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron gaiff ei enwi yn y diffiniad trwy unrhyw reoliadau o dan y cymal.
9. Cymal 2: Cwmpas, cychwyn a theitl byr
Mae'r cymal hwn yn darparu bod y Bil yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil y rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r cymal yn nodi hefyd teitl byr y Bil.
10. Mae angen cydsyniad ar gyfer hyn oherwydd ei fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud ag lechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu)

11. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn y Llywodraeth yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU am resymau amser ac ystyrllondeb. Mae darpariaethau'r Bil yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid. Bydd mynd â'r Bil hwn yn ei flaen yn golygu y rhoddir yr un amddiffyniad i anifeiliaid gwasanaethu yng Nghymru yr un pryd â'r rheini yn Lloegr.

Goblygiadau ariannol

12. Ychydig iawn o gostau os o gwbl fydd y Bil hwn yn ei olygu i'r system cyfiawnder troseddol.

Casgliad

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Ionawr 2019